**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg – gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.**

**This document is also available in English – see English page on our website**

## Canfyddiadau cam 2 yr ymgynghoriad cyhoeddus –

## Cynllun Creu Lleoedd drafft ar gyfer yr Wyddgrug

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd ceisio barn trigolion lleol ar y Cynllun Creu Lleoedd drafft ar gyfer yr Wyddgrug. Lansiodd Cyngor Sir y Fflint arolwg ar-lein drwy blatfform ar-lein 'Give My View' rhwng 27 Chwefror 2026 ac 16 Mawrth 2026. Yn ogystal â hyn, rhoddwyd cyfle i bobl leol gymryd rhan yn yr ymgynghoriad wyneb yn wyneb yn Llyfrgell yr Wyddgrug rhwng 3 Mawrth ac 13 Mawrth 2026.

Mae'r crynodeb o'r canfyddiadau isod yn cynnwys ymatebion gan gyfranogwyr ar-lein ac wyneb yn wyneb.

**Cwestiwn 1: A ydych chi wedi clywed am gyfleoedd Creu Lleoedd yn yr Wyddgrug?**

| Ymateb | Wyneb yn wyneb | Ar-lein | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Do | 2 | 96 | 98 |
| Naddo | 3 | 359 | 362 |
| Cyfanswm | 5 | 455 | 460 |

**Cwestiwn 2: A ydych chi wedi ymateb i arolwg am Gynlluniau Creu Lleoedd o'r blaen?**

| Ymateb | Wyneb yn wyneb | Ar-lein | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Do | 1 | 73 | 74 |
| Naddo | 4 | 334 | 338 |
| Cyfanswm | 5 | 407 | 412 |

**Cwestiwn 3: A yw blaenoriaethau'r Cynllun Creu Lleoedd yn adlewyrchu anghenion yr Wyddgrug?**

| Sgôr | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb | - | - | - | - | - | - | 1 | - | 2 | - |
| Ar-lein | 7 | 2 | 15 | 13 | 26 | 28 | 52 | 52 | 30 | 38 |
| Cyfanswm | 7 | 2 | 15 | 13 | 26 | 28 | 53 | 52 | 32 | 38 |

**Cwestiwn 4: A yw'r dull arfaethedig (ar gyfer gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd) yn synhwyrol?**

| Sgôr | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb | - | - | - | - | - | - | - | 2 | 3 | - |
| Ar-lein | 3 | 1 | 4 | 7 | 27 | 24 | 47 | 59 | 26 | 25 |
| Cyfanswm | 3 | 1 | 4 | 7 | 27 | 24 | 47 | 61 | 29 | 25 |

Rhoddwyd dau gyflwyniad byr i gyfranogwyr eu gwylio yn ymwneud â'r blaenoriaethau a'r dull arfaethedig ar gyfer gweithredu'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer yr Wyddgrug yn yr arolwg ar-lein drwy 'Give My View'. Pwrpas yr elfennau hyn oedd darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth, ac nid oeddent yn rhan o'r wybodaeth a gasglwyd gan gyfranogwyr. Mewn digwyddiadau ymgynghori wyneb yn wyneb, roedd deunydd arddangos wedi'u gosod yn y lleoliadau ymgynghori â'r wybodaeth berthnasol.

**Canfyddiadau allweddol:**

- Nid oedd llawer o drigolion yn ymwybodol o waith datblygu'r Cynllun Creu Lleoedd yn yr Wyddgrug, gydag 78.7% (362 allan o 460) o ymatebwyr yn nodi nad oeddent wedi clywed am y gwaith o'r blaen.

- Nododd 82% o ymatebwyr (338 allan o 412) nad oeddent wedi cymryd rhan yng ngham 1 ymgynghoriad Cynllun Creu Lleoedd yr Wyddgrug a gynhaliwyd yn 2024.

- Roedd yr ymatebion i'r wyth blaenoriaeth ar y thema 'Pobl' a 'Lle' (i'w gweld yn y lluniau/teitlau isod) a gynigir yn y Cynllun Creu Lleoedd yn gadarnhaol ar y cyfan, gydag 85.7% o ymatebwyr yn rhoi sgôr rhwng 5 a 10 (allan o 10) ar y raddfa*, a 45.1% o'r ffigwr hwn yn rhoi sgôr o 8 neu uwch.

**sgôr o 1 i 10; 10 yn cytuno'n llwyr ac 1 yn anghytuno'n llwyr â blaenoriaethau a dull y Cynllun Creu Lleoedd arfaethedig ar gyfer darparu'r Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer y Fflint.*




- Roedd yr ymatebion i'r dull arfaethedig yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 93.4% o ymatebwyr yn rhoi sgôr rhwng 5 a 10 (allan o 10).

- Roedd 6.6% yn anghytuno â'r blaenoriaethau a/neu'r dull arfaethedig (gan sgorio 4 neu lai allan o 10 i'r cwestiynau)- ac roedd pob un o'r rhain yn gyfranogwyr ar-lein.

- Roedd y cyfle i siarad â swyddogion Tîm Adfywio'r Cyngor (sy'n gyfrifol am gydlynu datblygiad Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer trefi ar draws Sir y Fflint) wedi arwain at sgwrs ddwyffordd a chyfle i fesur dealltwriaeth pobl leol o'r Cynllun arfaethedig a'r dull darparu. Nid oedd hyn yn bosibl drwy'r dull ymgynghori ar-lein. Gall hyn egluro pam fod 0% o ymatebwyr wyneb yn wyneb wedi rhoi sgoriau is (4 neu lai allan o 10) i gwestiynau 3 a 4, o'i gymharu â'r rhai a gymerodd ran ar-lein.